# THOMAS, ROBERT (bu farw 2 Ebrill 1692), pregethwr Piwritanaidd

**Enw:** Robert Thomas
**Dyddiad marw:** 2 Ebrill 1692
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr Piwritanaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Richards

Cysylltir ei enw a'r Neuadd Baglan (Morgannwg), ac efallai mai ef yw'r Robert Thomas a ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn Awst 1658. Pan ddaeth yr Adferiad a Deddf Unffurfiaeth, ni chyfrifwyd ef ymhlith y gweinidogion a ddifuddiwyd yn 1662; pregethwr yn unig ydoedd, heb ei ordeinio. Yn 1669 adroddid ei fod yn pregethu 'n ddirgel i ryw ugain o ddilynwyr, a'r rheini'n gymysg o Annibynwyr a Bedyddwyr; dair blynedd cyn hynny (Mawrth 1666) yr oedd wedi sefydlu'r eglwys - a chlymu'r aelodau'n dynn wrth ei gilydd drwy gyfrwng cyfamod - a ddaeth yn enwog yn ei thro fel cynulleidfa Cilfwnwr, Tirdoncyn, Mynydd Bach, yr aelodau yn dod o blwyf Llangyfelach a'r plwyfi oddeutu. Cafodd drwydded i bregethu yn ei d  ei hun ym Maglan o dan ' Indulgence ' 1672, a rhydd Henry Maurice le pur amlwg iddo yn ei adroddiad am Sir Forgannwg yn 1675. Yn llawysgrifau Margam ymddengys ei enw yn bur aml fel g  r yn pechu yn erbyn deddfau mynychu'r eglwys blwyf. Yn 1687 ef oedd un o'r ychydig Anghydffurfwyr yng Nghymru a gredodd yn Iago II a'i ddeclarasiwn rhyddid addoli; ar 15 Ebrill rhoddodd rybudd i Syr Edward Mansell o Fargam ei fod am gadw cwrdd crefyddol yn ei d  (Pen y Gisla erbyn hynny) ac yn nh  Mary Thomas yng Nghilfwnwr (ei chwaer, yn ôl pob tebyg). Cafodd weled Deddf Goddefiad yn dod i rym; disgrifir ef yn niwedd ei oes fel hen  r gweddol dda arno, duwiol ddigamsyniol, wedi gwasnaethu ei Arglwydd am dros 40 mlynedd. Erbyn 1692 gellir edrych ar gynulleidfa Robert Thomas fel un drwyadl Annibynnol, er ei fod ef ei hun yn fab i un o bregethwyr John Miles, ac wedi ei fedyddio yn Ilston, Tachwedd 1650.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters who were ejected or silenced after the Restoration in 1660* (London 1713), ii, 733

*Lambeth MS* 639 (187b)

*Calendar of State Papers, Domestic Series*Chas. II, E.B., 38A, 197

*Broadmead Records* (1847, 1865), Add. B, 514

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1916-9, 55-7; 1928, 76-80

*Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690–1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917*, 94, 367

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 146-8

*The Transactions of the Aberafan & District Historical Society*, 1924, 50


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734366


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cifrannu